

Adnabod Awdur

Rhiannon Wyn


Cafodd Rhiannon ei magu mewn siop lyfrau a'i hannog i ysgrifennu pan oedd yn blentyn.

Cyflwynodd ei nofel gyntaf, sef *Codi Bwganod*, i'w thad, y diweddar Eirug Wyn. Dywed fod ysgrifennu creadigol wedi bod yn rhan bwysig o'i bywyd erioed. Esboniodd sut i'w thad, oedd yn awdur toreithiog iawn, fod yn ddylanwad mawr arni.

'Ei brif ddylanwad arna i oedd drwy esiampl: ei ethos gwaith, ei ddisgyblaeth, a'i ymrwymiad pendant i unrhyw dasg. Mi fydda i'n meddwl amdano'n aml wrth ysgrifennu. Ei straeon (gwirion) o cyn mynd i gysgu oedd fy nghyflwyniad cyntaf i unrhyw fath o ysgrifennu creadigol!'

Lleolir ei hail nofel, *Yr Alarch Du*, yng Nghaernarfon, gan adrodd hanes tad alcoholig, ei fab a chariad y mab. Mae'n nofel sy'n addas i'r ardegaru hwyr ac oedolion.

Tir na n-Og
GWOBRAU 2012



Yr Alarch Du
Y Lolfa £5.95



Codi Bwganod
Y Lolfa £5.95



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwailes.com
Llyfrau ar-lein, books online



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Adnabod Awdur

Rhiannon Wyn

Dyddiad Geni 19 Mawrth 1979

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais fy ngeni ym Mangor a'm magu yn y Groeslon, ger Caernarfon.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn i wrth fy modd yn gweld fy ffrindiau bob dydd ond braidd yn ddiog ar brydiau pan oedd rhaid gwneud unrhyw waith.

Beth oeddech chi eisïau bod ar ôl tyfu i fyny? Mi wnaeth amrywio yn arw ... o redeg cenedl i gŵn, i fod yn actores, pensaer, ffisiotherapydd neu ffotograffydd. A bod yn onest, doedd gen i ddim syniad!

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn? *Teulu'r Cwpwrdd Cornel* gan Alwyn Thomas.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Ioga, darllen a theithio.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Yn bersonol: gweld teulu a ffrindiau a mynd dramor i grwydro. Yn broffesiynol: gorffen rhywbeth ar ôl gweithio'n galed arno.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pan dwi'n methu meddwl am syniadau.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?

Roeddwn i wastad wedi mwynhau 'sgwennu yn yr ysgol ond wnes i ddim meddwl am y peth fel gwaith proffesiynol tan i mi fynychu cwrs ysgrifennu ar gyfer y teledu, a chael blas arno.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Codi Bwganod*, nofel i blant 11–13 oed.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?

Gall amrywio o ddydd i ddydd.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Pwy a wŷr!

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Darllen a gwyllo digon o bethau amrywiol, astudio'r dechneg a dal ati.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? Ar hyn o bryd *Modern Family*, *Homeland* a gwell i mi ddweud *Rownd a Rownd!*

Beth yw eich hoff fwyd? Cyrrï Thai.

Beth yw eich hoff le yn y byd?

Gormod o ddewis!

Oes ganddoch chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall?

Hen dedi o'r enw Ciw. Mae o'n ofnadwy o hyll, ond mae o gen i ers i mi ei gymryd o blith stoc siop Dad ym bump oed. Bu Nain yn gwneud dillad iddo am flynyddoedd.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Fy ngŵr.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?

Fysa fiw i mi ddweud ...